

Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Adrannau 1 ac 8

Teitl y cynnig:	Ehangu'r rhaglen imiwneiddio rhag yr eryr ar gyfer unigolion ag imiwnedd gwan iawn i gynnwys oedolion 18-49 oed.
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Rachael Jones Polisi Brechu
Adran:	Yr Is-adran Frechu
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Joanne Larnier Dirprwy Gyfarwyddwr
Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog Cyfrifol:	Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Dyddiad Cychwyn:	O fis Medi 2025 ymlaen

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?.....3

Adran 8. Casgliad.....8

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?

Mae'r eryr, neu herpes zoster yn haint feirysol o'r croen a'r system nerfol a achosir pan gaiff y feirws varicella-zoster (a elwir yn gyffredin fel brech yr ieir) ei ailactifadu mewn person sydd wedi'i heintio yn flaenorol. Unwaith y bydd person wedi gwella o frech yr ieir, mae'r feirws varicella-zoster yn aros yn segur yn ei gelloedd nerfol a gall ailactifadu ar unrhyw adeg yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos person sydd â system imiwnedd gwan.

Mae'r eryr fel arfer yn dechrau pan geir brech â phothelli a phoen, ac mae'n gallu para rhwng 2 a 4 wythnos. Mae'r hylif o'r pothelli hyn yn heintus a gall arwain at frech yr ieir mewn pobl nad oes ganddynt imiwnedd i'r feirws. Mewn rhai achosion, gall poen difrifol (niwralgia ôl-herpetig) bara am sawl mis neu flynyddoedd ar ôl i'r brech ddiflannu. Gall cymhlethdodau eraill gynnwys gwendid motor, parlys yr wyneb a herpes zoster ophthalmicus (a all achosi cymhlethdodau gan arwain at amhariad ar y golwg). Gall y feirws hefyd ledaenu i organau gan arwain at niwmonia, hepatitis ac enseffalitis. Mae clefydau a ledaenir yn fwy tebygol o ddigwydd yn y rhai ag imiwnedd gwan iawn, gyda chyfradd marwolaethau achosion rhwng 5% a 15%.¹ Mae modd trin yr eryr â chyffuriau gwrthfeirol, ond gall achosi poen hynod o nychus ac arwain i'r rhai sy'n dioddef gael eu derbyn i'r ysbyty. Dim ond yn rhannol y gellir trin niwralgia ôl-herpetig â phoenladdwyr drud.

Mae'r eryr yn gallu effeithio ar unrhyw un o unrhyw oed, ond mae nifer yr achosion a difrifoldeb achosion yn cynyddu mewn carfannau o bobl o oedran hŷn. Mae system imiwnedd wedi'i atal hefyd yn gysylltiedig â risg uwch o'r eryr, a niwralgia ôl-herpetig sy'n deillio o hynny, naill ai yn sgil triniaeth atal imiwnedd, cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes neu imiwnoheneiddiad.

Yn 2013, cyflwynodd Cymru raglen brechu rhag yr eryr ar gyfer pobl 70-79 oed, gan ddefnyddio un dos o frechlyn zoster byw (sydd â'r enw brand Zostavax®). Yn 2019, argymhellodd y Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu y dylid newid y rhaglen genedlaethol ar gyfer imiweiddio rhag yr eryr er mwyn cynnig Shingrix® ar sail amserlen 2 ddos. Yn 2023, gwnaed newidiadau pellach i'r rhaglen, pan ehangwyd y cymhwysra ar gyfer cael brechlyn Shingrix® i gynnwys pob unigolyn 50 oed a

¹[Yr eryr, y Llyfr Gwyrdd, pennod 28a](#)

throsodd ag imiwnedd gwan iawn, a gostyngwyd yr oedran cymwys ar gyfer unigolion â system imiwnedd sy'n gallu cynhyrchu ymateb priodol o 70 i 60 oed².

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu gyngor pellach yn argymhell y dylid ehangu cymhwysra rhaglen yr eryr i gynnwys pob oedolyn 18 oed a throsodd ag imiwnedd gwan iawn, a hynny yn seiliedig ar ei risg gyfatebol i garfannau eraill o bobl sydd eisoes yn gymwys i gael eu brechu³. Mae unigolion cymwys yn cynnwys y rhai â diffyg imiwnedd neu'n cael therapi atal imiwnedd, fel y nodir yn y diffiniad o imiwnedd gwan iawn yn y Llyfr Gwyrdd, pennod 28a⁴. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwledydd eraill y DU, yn cynnig ehangu'r rhaglen bresennol ar gyfer unigolion ag imiwnedd gwan o fis Medi 2025 ymlaen.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phedwar o'r nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sef:

- Cymru fwy llewyrchus - mae poblogaeth sydd â lefelau brechu uchel yn iachach, sydd yn ei dro yn arwain at gyflogaeth uwch a mwy o gynhyrchiant.
- Cymru iachach - drwy gyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol pobl.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – lle mae poblogaeth iachach yn mynd ymlaen i gyrraedd eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - lle mae brechu yn allweddol i ddiogelwch ieuchyd byd-eang, mewn byd cydgysylltiedig lle gall achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau ieuchyd cyhoeddus.

O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:

Y tymor hir

- Byddai ehangu'r rhaglen yn cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol o eryr ymhlith unigolion 18-49 oed ag imiwnedd gwan iawn. Daeth dadansoddiad a gynhaliwyd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU i'r casgliad bod y risg o orfod treulio cyfnodau yn yr ysbyty yn sgil yr eryr neu niwralgia ôl-herpetig ymhlith grwpiau iau o bobl ag imiwnedd gwan yn debyg i garfannau eraill o bobl a oedd eisoes yn gymwys i gael eu brechu. Felly, mae ehangu'r rhaglen i gynnwys y grŵp oedran hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ieuchyd i'r rhai sydd wedi'u brechu a lleihau effaith yr eryr a'r cymhlethdodau sy'n deillio ohono ar wasanaethau ieuchyd cyhoeddus.

²Eryr - Gwybodaeth i weithwyr ieuchyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru

³Datganiad Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu ar y rhaglen brechu rhag yr eryr (herpes zoster) - GOV.UK

⁴Yr eryr, y Llyfr Gwyrdd, pennod 28a

- Mae rhaglenni brechu yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r salwch a'r marwolaethau cysylltiedig o ganlyniad i glefydau heintus bellach yn benderfynyddion cyfleoedd bywyd unigolyn. Mae gan y rhai sy'n cael eu brechu y cyfle i gael ansawdd bywyd a disgwyliad oes gwell.

Atal

- Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechyd ein hunain, a dyma'r cam ataliol pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Trwy gael eu brechu, bydd unigolion yn lleihau'r posibilrwydd o ddatblygu'r eryr a'r sgil-ffeithiau hirdymor. Yn ogystal, mae unigolion sydd wedi'u brechu sy'n cael yr eryr yn debygol o gael salwch am gyfnod byrrach gyda llai o symptomau. Prif nod ehangu'r rhaglen yw cynnig amddiffyniad i'r holl oedolion ag imiwnedd gwan iawn, y cânt eu hystyried fel rhai sy'n wynebu risg o salwch difrifol yn sgil yr eryr a chymhlethdodau sy'n deillio ohono, yn benodol rhag gorfod treulio cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaeth.
- Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu ac yn lleihau effaith yr eryr ar wasanaethau iechyd cyhoeddus. Pan gafodd ei chyflwyno gyntaf, dangosodd asesiad o effeithiolrwydd y rhaglen reolaidd fod effeithiolrwydd brechu yn dda ar draws y carfanau cymwys, gan gynnig amddiffyniad da iawn rhag niwralgia ôl-herpetig⁵.

Integreiddio

- Gan fod hyn yn ymwneud ag ehangu'r rhaglen brechu rhag yr eryr bresennol ar gyfer unigolion ag imiwnedd gwan iawn, byddai'r rhaglen yn cael ei hymgorffori o fewn y model cyflawni presennol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o gyflawni hyn, gan hefyd leihau'r tarfu ar waith cyflawni rhaglenni rheolaidd eraill y GIG.

Cydweithio

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth gynllunio'r gwaith o ehangu'r rhaglen frechu drwy ohebu a chynnal chyfarfodydd ar-lein yn rheolaidd.

Cyfranogiad

- Rydym yn gweithio gyda Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi sefydliadau ac elusennau sy'n cynorthwyo unigolion ag imiwnedd gwan, er mwyn cynnig cyngor a gwybodaeth iddynt o ran sut y

⁵[Effeithiolrwydd brechlyn herpes zoster mewn poblogaeth hŷn yn y Deyrnas Unedig - ScienceDirect \(Saesneg yn unig\)](#)

gall unigolion cymwys fanteisio ar y cyfle i gael eu brechu. Disgwylir i'r sefydliadau a'r elusennau hyn fod yn rhanddeiliaid allweddol o ran hyrwyddo'r brechlynnau a'r manteision a ddaw yn eu sgil.

Effeithiau

Cadarnhaol –

- pwrpas ehangu'r rhaglen brechu rhag yr eryr (fel pob rhaglen frechu) yw sicrhau ei bod fel mesur ataliol i amddiffyn pobl rhag feirws yr eryr. Nod hyn yw cadw unigolion sy'n fwy agored i niwed yn ddiogel rhag clefydau difrifol, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaeth.
- byddai'r rhaglen wedi'i hehangu yn cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol ymhlith y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu ac yn lleihau effaith yr eryr ar wasanaethau iechyd cyhoeddus.
- mae astudiaethau wedi dangos, yn ystod 5 mlynedd gyntaf y rhaglen brechu rhag yr eryr, y cynhaliwyd 40,500 yn llai o ymgynghoriadau gan feddygon teulu ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig â'r eryr a gwelwyd 1,840 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty⁶.

Negyddol

- Ceir risg o ran derbynioldeb y brechlyn a'r nifer a fydd yn manteisio arno, a hynny os yw ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r eryr yn isel ymhlith y garfan gymwys. Ceir tystiolaeth bod y nifer sydd wedi manteisio ar y brechlyn rhag y fflw ymhlith yr un garfan o unigolion ag imiwnedd gwan iawn yn is na'r targed.
- Ceir risg y gallai cyflwyno elfen ychwanegol i'r rhaglen frechu rheolaidd arwain at ragor o bwysau ar y GIG, yn arbennig oherwydd y cynigir rhoi y newidiadau ar waith o fis Medi ymlaen pan fydd byrddau iechyd hefyd yn gyfrifol am gyflawni rhaglenni brechu rhag y fflw a covid. Gallai'r gofyniad ychwanegol hwn effeithio'n negyddol ar eu capasiti a'u gallu i ddarparu gwasanaethau rheolaidd eraill.

Costau ac Arbedion

- Wedi'i gynnwys yn ei gyngor, adolygodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ganlyniadau modelu cost-effeithiolrwydd a awgrymodd fod brechu gan ddefnyddio Shingrix® yn gosteffeithiol i'r boblogaeth 50 i 90 oed ag imiwnedd gwan. Dewiswyd y paramedrau oedran hyn yn seiliedig ar awdurdodiad y

⁶[Effaith y rhaglen frechu rhag herpes zoster ar achosion o herpes zoster yr ymgynghorwyd arnynt yn yr ysbyty ac ym maes ymarfer cyffredinol yn ystod y 5 mlynedd ar ôl ei chyflwyno yn Lloegr: astudiaeth yn seiliedig ar boblogaeth - PubMed \(Saesneg yn unig\)](#)

brechlyn ar y pryd, sydd ers hynny wedi'i ehangu ar gyfer atal yr eryr mewn oedolion 18 oed a throsodd sy'n wynebu risg uwch o'r eryr.

- Nid yw'r costau hyn yn cynnwys costau o ran Unedau Gofal Dwys, cludiant ambiwlans, gofal cymdeithasol, gofal anffurfiol, na chostau cynhyrchiant (er enghraifft, unigolion yn cymryd amser i ffwrdd oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu), felly mae'r manteision gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch. Gall atal achosion difrifol o'r eryr arwain at fanteision ychwanegol i'r GIG drwy leihau pwysau.

Gweithdrefn

- Nid oes angen deddfwriaeth newydd i ehangu'r rhaglen frechu yng Nghymru.
- Cyhoeddwyd y [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol](#) ym mis Hydref 2022 ac mae'n nodi ein cynlluniau i roi gwybod i bobl pa frechlynnau y maent yn gymwys i'w cael a sut i'w cael.
- Cyfrifoldeb GIG Cymru fydd cyflawni'r rhaglen, gyda byrddau iechyd yng Nghymru yn ehangu ar eu modelau cyflawni presennol i gynnig y brechlyn i bob oedran o fewn y garfan o bobl ag imiwnedd gwan iawn.
- Bydd unrhyw benderfyniad i ehangu'r rhaglen brechu rhag yr eryr yn cael ei gyfleu ar yr adeg briodol i'r GIG drwy rifyn o Gylchlythyr Iechyd Cymru a bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi i hysbysu Aelodau'r Senedd.
- Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llunio strategaeth gyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r eryr, rhoi gwybod i unigolion cymwys am fanteision cael y brechlyn a sut y bydd y rhai sy'n cael cynnig brechlyn yn gallu cael eu brechu.

Adran 8. Casgliad

8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi argymhell y dylid ehangu cymhwysra y rhaglen brechu rhag yr eryr bresennol ar gyfer oedolion ag imiwnedd gwan iawn i gynnwys y rhai 18-49 oed⁷.

Unigolion cymwys yw'r rhai sy'n bodloni'r diffiniad o imiwnedd gwan iawn fel y'i nodir yn y Llyfr Gwyrdd, pennod 28a⁸. Bydd hyn yn cynnwys unigolion â chyflyrau sy'n gysylltiedig â diffyg imiwnedd oherwydd cyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes neu'r rhai sy'n cael therapi atal imiwnedd. Mae'r garfan gymwys yn debygol o amrywio bob blwyddyn, gan y bydd rhai unigolion yn cael eu hystyried yn rhai sydd ag imiwnedd gwan yn barhaol, tra y bydd eraill yn dod yn gymwys wrth gael triniaeth.

Trwy gydol y gwaith o ddatblygu'r polisi brechu, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi sefydliadau ac elusennau sy'n cynorthwyo unigolion ag imiwnedd gwan i'w galluogi i gynnig cyngor a gwybodaeth iddynt o ran sut y gall unigolion cymwys fanteisio ar y cyfle i gael eu brechu. Disgwylir i'r sefydliadau a'r elusennau hyn fod yn rhanddeiliaid allweddol o ran hyrwyddo'r brechlynnau a'r manteision a ddaw yn eu sgil. Rydym hefyd wedi casglu gwybodaeth ar berfformiad y rhaglen bresennol ar gyfer unigolion 50 oed a throsodd ag imiwnedd gwan, a hynny er mwyn llywio ystyriaethau o ran cynllunio a manteisio ar wersi a ddysgwyd ers cyflwyno'r rhaglen ym mis Medi 2023.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector amrywiol i gael darlun ymddygiadol o'r rhwystrau, canfyddiadau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â rhaglenni brechu yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn defnyddio gwahanol adnoddau a dulliau i ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau i lywio strategaethau cenedlaethol a gwelliannau i wasanaethau a dylanwadu arnynt. Y nod yw mynd ati i gynnwys gwahanol garfannau o'r cyhoedd, fel grwpiau ethnig lleiafrifol⁹ wrth ddatblygu adnoddau ac ymyriadau, gyda'r nod o lywio a meithrin ymddiriedaeth. Os caiff y rhaglen ei rhoi ar waith, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio'r cynllun cyfathrebu a theilwra gwybodaeth a thafleddi ar gyfer grwpiau penodol yn y carfanau cymwys.

⁷[Datganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ynghylch y rhaglen brechu rhag yr eryr \(herpes zoster\) - GOV.UK \(Saesneg yn unig\)](#)

⁸[Yr eryr, y Llyfr Gwyrdd, pennod 28a](#)

⁹<https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-ymgysylltu/gwerthusiad-o-adnoddau-gwybodaeth-adroddiad-cryno-lleiafrifoedd-ethnig-2023-pdf/>

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Disgwylir i'r gwaith o ehangu'r rhaglen brechu rhag yr eryr i gynnwys pob oedolyn 18 oed a throsodd ag imiwnedd gwan iawn gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas ac unigolion drwy leihau'r baich clefyd. Daeth dadansoddiad a gynhaliwyd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU i'r casgliad bod y risg o orfod treulio cyfnodau yn yr ysbyty yn sgil yr eryr neu niwralgia ôl-herpetig ymhlith grwpiau iau o bobl ag imiwnedd gwan yn debyg i garfannau eraill o bobl sydd eisoes yn gymwys i gael eu brechu. Felly, mae brechu'r garfan hon yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar iechyd yr unigolion a fyddai'n profi salwch am gyfnod byrrach gyda llai o symptomau, yn ogystal ag ar y GIG yng Nghymru, a hynny yn sgil lleihau nifer apwyntiadau meddygon teulu, derbyniadau i'r ysbyty a chostau ymateb cysylltiedig o ran iechyd y cyhoedd.

Byddai brechlyn yn cael ei gynnig i bob unigolyn cymwys ni waeth beth fo'i ryw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, dewis iaith, anabledd, crefydd neu gredoau, statws economaidd-gymdeithasol neu ymlyniad gwleidyddol. Os caiff y rhaglen frechu ei hehangu i'r garfan hon o unigolion, yn unol â chynghor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneddio a Brechu, yna byddai pobl cymwys yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad â phobl yng ngwledydd eraill y DU.

Law yn llaw â'r manteision iechyd i unigolion yn ymwneud â lleihau'r risg o glefyd difrifol i unigolion, gall y rhaglen frechu fod o fudd i fusnesau drwy gyfyngu ar effeithiau economaidd a ddaw yn sgil colledion cynhyrchiant ac absenoldeb, sy'n deillio o'r unigolyn sy'n gorfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch, a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu am unigolion ag imiwnedd gwan iawn. Bydd ehangu cymhwysra'r rhaglen i gynnwys y rhai 18-49 oed yn arwain at gynnig y brechlyn i fwy o unigolion o oedran gweithio.

Ceir risg y gallai ehangu'r rhaglen frechu rheolaidd arwain at ragor o bwysau ar y GIG yng Nghymru, yn arbennig gan fod y newidiadau yn cael eu cynnig o fis Medi ymlaen pan fydd byrddau iechyd eisoes yn wynebu rhagor o bwysau ar y system yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf. Gallai'r gofyniad ychwanegol hwn effeithio'n negyddol ar eu capasiti a'u gallu i ddarparu gwasanaethau rheolaidd eraill, yn arbennig y rhaglenni brechu rhag y fflw a covid sydd hefyd yn cael eu cyflawni o fis Medi ymlaen. Caiff yr effaith hon ei lliniaru â chanllawiau ynghylch rhoi'r system ar waith yn raddol, gyda gwasanaethau gofal sylfaenol yn gallu cynnig brechlynnau drwy gydol y flwyddyn, ar adeg sydd yn hwylus iddynt hwy. Mae cynhyrchu'r holl ddeunydd darllen angenrheidiol ar gyfer cleifion a'r holl ganllawiau angenrheidiol ar gyfer brechwyr hefyd yn her, o safbwynt Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn yr un modd, bydd cyflwyno'r holl systemau digidol angenrheidiol y bydd eu hangen er mwyn gwahodd y rhai sy'n gymwys i apwyntiadau a chofnodi brechlynnau hefyd yn her.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Rhoddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r ffordd y mae'r polisi brechu yn ymwneud â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r pum ffordd o weithio. Mae poblogaeth sydd â lefelau brechu uchel yn iachach, yn gorfforol ac yn feddyliol, sy'n cyfrannu at y nod Cymru iachach. Mae pobl iachach yn golygu gweithlu mwy cynhyrchiol a chynhyrchiant uwch, sy'n cyfrannu at y nod Cymru fwy ffyniannus. Mae brechu yn allweddol i ddiogelwch iechedd byd-eang, mewn byd cydgysylltiedig lle gall brigiad o achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau iechedd cyhoeddus, gan arwain at Gymru sy'n fwy cyfrifol ar lefel byd-eang.

O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:

Mae rhaglenni brechu yn yr **hirdymor** yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r salwch a'r marwolaethau cysylltiedig o ganlyniad i glefydau heintus bellach yn benderfynyddion cyfleoedd bywyd unigolyn. Brechu yw un o'r camau gweithredu pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechedd ein hunain, a dyma'r cam **ataliol** pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Bydd y rhaglen frechu hon yn cael ei **hintegreiddio** o fewn y rhaglen brechu rhag yr eryr bresennol ac yn eu gwneud yn eu cysoni. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau unrhyw darfu ar wasanaethau'r GIG. Mae Llywodraeth Cymru wedi **cydweithio** â Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a bydd yn parhau i wneud hynny, wrth gynllunio'r gwaith o weithredu'r rhaglen frechu a monitro ei llwyddiant, drwy ymgysylltu'n rheolaidd. Rydym yn parhau i weithio gyda Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi a **chynnwys** rhanddeiliaid perthnasol wrth lunio a hyrwyddo canllawiau a gwybodaeth ar gyfer unigolion ag imiwnedd gwan iawn sy'n gymwys i gael eu brechu. Yn amodol ar gytundeb Gweinidogol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr clinigol a gweithredol er mwyn llywio penderfyniadau ar sut y byddai rhaglen brechu rhag yr eryr wedi'i hehangu yn cael ei chyflwyno o hydref 2025 ymlaen.

Er mwyn gwneud y gorau o'r manteision a ddisgrifir, rhaid i rhaglenni brechu fod yn hygyrch i bawb.

Er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl o grwpiau anodd eu cyrraedd yn manteisio ar y rhaglen frechu, bydd GIG Cymru yn gweithredu egwyddorion y Fframwaith Imiwnedd Cenedlaethol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn

2022¹⁰, sy'n ceisio trawsnewid a gwella'r ddarpariaeth o raglenni brechu ac imiwneiddio ar gyfer pobl Cymru, gyda phwyslais ar gael mwy o bobl i fanteisio ar frechlynnau a sicrhau bod tegwch wrth wraidd y rhaglen.

Wrth gyflwyno'r rhaglen frechu hon, bydd disgwyl i fyrddau iechyd gynnis cymorth wedi'i deilwra i alluogi ac annog grwpiau nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol i fanteisio ar y cynnis i gael eu brechu. Er mwyn gwneud hyn, rhaid cymryd camau rhagweithiol i sicrhau:

- Bod pawb sy'n gymwys i gael brechlyn yn cael cynnis apwyntiad priodol (ac yn cael eu galw'n ôl pan fo angen) a'u bod yn gallu cael brechlyn.
- Bod pawb yn cael yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ddibynadwy am gael brechlynnau.

Dylid gweithredu o dan arweiniad lleol i ymgysylltu â chymunedau a'u grymuso i ddeall manteision brechu a chynorthwyo ac ysgogi eraill yn eu cymunedau i gael eu brechu, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae lefelau brechu'n isel. Disgwylir i fyrddau iechyd ddatblygu Strategaeth Brechu Teg a rhaglen waith gyda mewnbwn iechyd y cyhoedd pwrpasol.

Mae opsiynau brechu hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl yn manteisio ar y rhaglen. Disgwylir felly i fyrddau iechyd ystyried hyn wrth gynllunio a chyflawni'r rhaglen frechu. Mae dod â brechlynnau mor agos at unigolion â phosibl yn gwella'r nifer sy'n cael eu brechu - sicrhau bod meddygon teulu yn rhoi brechlynnau drwy ofal sylfaenol yw un o'r ffyrdd mwyaf hygyrch o gael brechlyn oherwydd bod meddygfeydd yn tueddu i fod yn agos at ble mae pobl yn byw.

8.4 Sut y bydd effaith y cynnis yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ac wedi iddo gael ei gwblhau?

Bydd y broses o ehangu'r rhaglen brechu rhag yr eryr ar gyfer unigolion ag imiwnedd gwan iawn yn cael ei monitro gan Raglen Frechu Cymru a fydd yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Goruchwylio Brechu yn rhan o'r trefniadau llywodraethiant cenedlaethol.

Mae bwrdd prosiect pedair cenedl wedi'i sefydlu i drafod y gwaith o ehangu'r rhaglen ac i gysoni'r ffordd y caiff ei chyflwyno er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU a Gogledd Iwerddon. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau i fonitro'r cynnydd ynghyd â chyfarfodydd ar lefel swyddogol. Bydd y system wylidwriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer y rhaglen brechu rhag yr eryr bresennol yn cael ei diweddarau i gasglu data

¹⁰ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-10/fframwaith-imiwneiddio-cenedlaethol-cymru.pdf>

gan feddygon teulu ynghylch y rhai sydd newydd ddod yn gymwys sy'n manteisio ar y cynnig i gael eu brechu, yn unol â rhaglenni brechu eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymwneud â'r holl randdeiliaid perthnasol, y tu hwnt i'r cam gweithredu i fonitro cynnydd a gwerthuso'r ffordd y caiff y rhaglen ei rhoi ar waith. Bydd swyddogion yn parhau i fynychu cyfarfodydd brechu y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, fel arsylwyr, i fonitro unrhyw drafodaeth yn y dyfodol ynghylch yr eryr ac unrhyw newidiadau y gallent eu cynghori.